**Cofnodion Bwrdd TrC**

**20 Hydref 2022**

09:30 – 17:00

Lleoliad – Llys Cadwyn ac ar-lein

---

**Yn bresennol**
Scott Waddington (Cadeirydd); Alun Bowen, Heather Clash, Vernon Everitt, Sarah Howells, Alison Noon-Jones, a James Price.

Hefyd yn bresennol: Jeremy Morgan; Leyton Powell (eitem 2); a Natalie Feely (eitemau 1 i 3).

**<u>Rhan A – Cyfarfod o’r Bwrdd Llawn</u>**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Nicola Kemmery.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod a datganodd bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datganiadau Diddordeb**
Dim.

**1d. Cofnodion a Chamau Gweithredu o’r Cyfarfod Blaenorol**
Derbyniwyd bod cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC ar 22 Medi 2022 yn gofnod gwir a chywir. Nodwyd y log camau gweithredu. Nododd y Bwrdd nad yw James Price bellach wedi’i secondio i TrC o Lywodraeth Cymru, ac mae’n gyflogedig gan TrC.

**1e. Sylw i Ddiogelwch**
Roedd dydd Llun yn Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd. Roedd hwn yn gyfle i wneud pwynt o ofyn i aelodau’r tîm am eu lles a oedd wedi dod â rhai pryderon i’r amlwg a sgyrsiau buddiol iawn.

**1f. Sylw i Gwsmeriaid**
Roedd gwasanaeth trên i Gaerdydd Heol y Frenhines yn rhedeg ychydig funudau’n hwyr ond eglurodd y goruchwyliwr fod hyn oherwydd problemau gyda thrên cludo nwyddau ac effaith debygol yr oedi. Roedd hyn yn enghraifft o gyfathrebu da â chwsmeriaid.

**2. Perfformiad diogelwch**

Ymunodd Leyton Powell â'r cyfarfod.

Mae'r gwaith wedi parhau gyda'r tîm Archwilio a Sicrwydd, y tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a'r tîm Seicoleg i gwblhau'r arolwg a'r archwiliad iechyd meddwl sydd bellach yn fyw. Mae hwn yn ddull gweithredu integredig 'un-TrC' sydd wedi'i ddylunio i adolygu polisïau ar draws busnes, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer iechyd a llesiant. Croesawodd y Bwrdd y cynllun gan nodi y bydd yr allbwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth iechyd a llesiant integredig wedi'i diweddaru.

Mae cynnydd wedi bod yn y Signalau a Basiwyd yn Beryglus (SPAD) yn ystod 2022 o'i gymharu â 2021. Hysbyswyd y Bwrdd bod SPADS wedi digwydd ar draws holl ddemograffeg y boblogaeth o yrwyr. Mae'r tîm Diogelwch wedi cynnal adolygiad llawn ac wedi cryfhau arfau gyda thimau gweithredol ac wedi comisiynu'r RSSB i roi barn annibynnol ar gymhwysedd gyrwyr a rheolwyr SPaD i nodi meysydd i'w gwella.

Nododd y Bwrdd gynnydd mewn digwyddiadau tresmasu a gweithgarwch troseddol ar draws y rhwydwaith. Mae timau'n parhau i weithio'n agos gyda Heddlu Trafnidiaeth Prydain a gwasanaethau heddlu lleol i fod yn rhagweithiol ac yn ymatebol i achosion. Roedd un digwyddiad yn cynnwys dwyn 21 tunnell o reiliau o iard nwyddau Pontypridd ddechrau mis Medi. Mae fforwm diogelwch ar y cyd rhwng TrC, AIW a Heddlu Trafnidiaeth Prydain wedi cael ei sefydlu ac mae'r cyfarfod cyntaf wedi cael ei gynnal yn ddiweddar. Er mwyn gwella'r gwaith o ddiogelu asedau, mae AIW wedi uwchraddio'u darparwyr diogelwch sydd â gallu symudol a chyswllt agosach â Heddlu Trafnidiaeth Prydain.

Mae perfformiad diogelwch rheilffyrdd yn erbyn targedau yn parhau i wella'n gyson ar y rhan fwyaf o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol gyda sgôr gyfun y mynegai marwolaethau wedi'i bwysoli o 0.11 sy'n is na'r 0.17 a ragwelwyd. Mae mynegai marwolaethau'r gweithlu wedi'i bwysoli yn dal yn gyson yn ystod y cyfnod hwn (0.03) gyda'r MMA o 0.05 yn dal yn is na'r ffigur a ragwelwyd (0.07). Gwelwyd gostyngiad yn nifer y digwyddiadau yn ymwneud â'r gweithlu gyda 20 wedi'u hadrodd (yn is na'r ffigurau a ragwelwyd). Gwelwyd gostyngiad hefyd yn nifer yr anafiadau heb fod yn ymwneud â'r gweithlu, gyda 23 wedi'u cofnodi o'i gymharu â 30 yn y cyfnod blaenorol, ond maent yn dal yn uwch na'r ffigur a ragwelwyd sef 15.54. Cafwyd saith ymosodiad corfforol yr adroddwyd arnynt.

Cafodd y Bwrdd hefyd yr wybodaeth ddiweddaraf am Drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd a Pullman Rail.

Gadawodd Leyton Powell y cyfarfod.

**3. Diweddariad strategol**

**3a. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

Trafododd y Bwrdd y cyfarfod cadarnhaol diweddar rhwng y Cadeirydd a'r Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd a chynlluniau ar gyfer cyfarfodydd chwarterol yn y dyfodol. Hefyd, rhoddodd y Prif Weithredwr wybodaeth i'r Bwrdd am gyfarfod diweddar gyda'r Dirprwy Weinidog, y Cadeirydd a swyddogion Llywodraeth Cymru ar brosiect Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd. [redacted]

Hysbyswyd y Bwrdd hefyd fod y Cadeirydd a'r Dirprwy Weinidog hefyd wedi trafod teithio llesol a'r angen iddo fod yn uwch ar agendâu awdurdodau lleol. Cydnabuwyd bod teithio llesol wedi cael ei drosglwyddo i awdurdodau lleol, ond

gall TrC ddarparu rôl arwain strategol. Cytunodd y Bwrdd y byddai'n elwa o ddeall y dull gweithredu neu'r cynllun gweithredu ar gyfer rheoli perfformiad awdurdodau lleol o ran grantiau **[Gweithredu Geoff Ogden].**

Nododd y Bwrdd fod y Dirprwy Weinidog hefyd yn croesawu gwaith TrC ar newid ymddygiad ac yn cydnabod bod angen i hyn gael ei brif ffrydio a'i wneud yn rhan o bopeth, o gynllunio ymyriadau i'w darparu a'u rhoi ar waith.

Cafodd y Bwrdd wybod hefyd bod rhagor o sgyrsiau wedi cael eu cynnal gyda'r Dirprwy Weinidog ynghylch rôl bosibl TrC o ran y rhwydwaith ffyrdd strategol. Mae James Price wedi cytuno i gael rhagor o ddeialog gyda'r Dirprwy Weinidog ynghylch dull gweithredu tebygol TrC.

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am gyflenwi gwasanaethau rheilffyrdd, dibynadwyedd y fflyd rheilffyrdd, refeniw teithwyr ar fysiau, rheilffyrdd a chyflogau Rheilffyrdd TrC.

**3b. Cyllid a llywodraethu**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau cyllid allweddol yn ystod y cyfnod diwethaf. Hysbyswyd y Bwrdd bod trafodaethau'n parhau ynghylch heriau'r bwlch cyllid refeniw sydd wedi cael eu trafod gyda'r Dirprwy Weinidog ac ym Mwrdd Llywio TrC.

[redacted]

[redacted]

Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu'r gyllideb a'r cynllun busnes ar gyfer 2023-24. Bydd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24 yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

O ran gwariant refeniw, roedd yr amrywiant yn ystod y mis yn £9.1m o danwariant yn erbyn y rhagolwg. Mae hyn yn ymwneud ag £8.9m ar gyfer Gweithrediadau Trafnidiaeth ac mae'n ymwneud yn bennaf â Rheilffyrdd ac adfer arian o Network Rail a rhyddhau croniadau eraill. Cafodd hyn ei wrthbwyso yn erbyn costau eraill a ailbroffiliwyd yn ddiweddarach yn y flwyddyn, sy'n cynnwys cerbydau ac ymrwymiadau eraill.

[redacted]

Nododd y Bwrdd y Cyfrifon Rheoli ar gyfer mis Medi 2022-23.

Croesawodd y Bwrdd y gwaith o ddatblygu dadansoddiad ariannol yn ôl llinell y llwybr sy'n darparu sail ar gyfer deall beth sy'n gyrru costau, y llwybrau drutaf a fydd yn helpu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Cytunwyd y byddai'r Bwrdd yn cael sesiwn benodol ar hyn yn ei gyfarfod nesaf **[Gweithredu Heather Clash].**

Gadawodd Natalie Feeley y cyfarfod.

**6. Is-fyrddau**

Trafododd bwrdd diweddar Rheilffyrdd TrC Cyf fetrigau perfformiad, risg, materion masnachol, yr adolygiad ariannol tymor canolig, achos busnes dros waith ychwanegol yn Depo'r Barri; estyniad les Cl158 ac amserlen Rhagfyr 2023.

Cafodd y Bwrdd hefyd yr wybodaeth ddiweddaraf am Pullman Rail Ltd sydd ar hyn o bryd yn elwa o lyfr archebion iach.

**6. Y Bwrdd Llywio**

Roedd cyfarfod diweddar Bwrdd Llywio TrC wedi trafod y berthynas â Llywodraeth Cymru, cyllideb TrC; tocynnau bws, prisiau tecach, Llinellau Craidd y Cymoedd, cynnydd mewn prisiau rheilffyrdd, a cherbydau ar gyfer digwyddiadau arbennig.

**7. Cyfrinachol**

Trafododd y Bwrdd ddau fater cyfrinachol.

**<u>Rhan B – Sesiwn diweddariad gweithredol</u>**

Ymunodd Nicola Kemmery, Alexia Course, Geoff Ogden a Dan Tipper â'r cyfarfod.

**8. Cynllun Datblygu Cynaliadwy**

Ymunodd Alana Smith â'r cyfarfod. Cyflwynwyd y diweddariad ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy i'r Bwrdd. Croesawodd y Bwrdd yr adroddiad ar y cynllun a darparu nifer o newidiadau a awgrymwyd gan gynnwys yr angen i sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn fyd-eang â deddfwriaeth berthnasol a chynllun gweithredu mewnol ar gyfer cyflawni.

Gadawodd Alana Smith y cyfarfod.

**9. Prosiect Cyfuno – y newyddion diweddaraf**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am Brosiect Cyfuno sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r berthynas waith rhwng TrC a Network Rail. Nodwyd a chroesawyd y cynnydd hyd yma sy'n dangos arweinyddiaeth a fframwaith y gall pob rhanbarth arall ddysgu ohono.

**10. Diweddariad ar y Stoc Cerbydau**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd mewn perthynas â'r rhaglen cyflenwi trenau newydd:

- Mae rhaglen FLIRT Dosbarth 231 yn cael ei chyflwyno yn unol â'r cynllun ar hyn o bryd gyda heriau mawr o ran gwella depos wedi cael eu lliniaru'n llwyddiannus hyd yma. Bwriedir iddynt ymuno â'r gwasanaeth ym mis Ionawr 2023.
- Mae'r rhaglen FLIRT Dosbarth 756 yn cael ei chyflwyno yn unol â'r cynllun ar hyn o bryd hefyd, gyda heriau mawr o ran oedi yn y seilwaith wedi cael eu lliniaru'n llwyddiannus hyd yma. Bwriedir iddynt ymuno â'r gwasanaeth yn chwarter 1, 2025.
- Mae rhaglen CityLink Dosbarth 398 yn cael ei chyflwyno yn unol â'r cynllun diwygiedig y cytunwyd arno ar hyn o bryd gyda heriau mawr o ran oedi yn y seilwaith wedi cael eu lliniaru'n llwyddiannus hyd yma. [redacted]
- Mae'r rhaglen CAF Dosbarth 197 yn cael ei gohirio ar hyn o bryd am naw mis oherwydd problemau technegol ac ansawdd gyda'r Unedau ac oedi gyda'r gwaith safoni ar y rhwydwaith. [redacted]

[redacted]

- Mae problemau technegol a diogelwch diweddar wedi cael eu goresgyn ar y fflyd Dosbarth 230. Mae'r rhaglen yn cael ei rhoi ar waith ar hyn o bryd i sicrhau lansiad meddal i'r gwasanaeth ar gyfer amserlen mis Rhagfyr 2022.

Gadawodd Alexia Course y cyfarfod.

**11. Cynllun Busnes Gwasanaethau Arloesi TrC 22-23**

Cyflwynwyd y Bwrdd i Gynllun Busnes drafft Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru Cyf ar gyfer 2023-24. Hysbyswyd y Bwrdd iddi fod yn fwy heriol dod o hyd i lif gwaith eleni ac mae gwaith yn parhau mewn sawl cyfeiriad. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu cynllun Cyfathrebu ar draws TrC gyda'r bwriad o wella ymgysylltiad â'r fenter ar y cyd. Nododd y Bwrdd hefyd fod Grŵp Llywio Arloesi yn cael ei sefydlu sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Keolis ac Amey ac o Labordai Arloesi TrC.

Roedd y Bwrdd yn awyddus i gael gweld arddangosiad o'r enillion ar fuddsoddiad yn y fenter ar y cyd.

Cymeradwyodd y Bwrdd y cynllun busnes ar gyfer 2023-24 a chyhoeddi llythyr cylch gwaith.

**12. Diweddariad ar drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am risgiau a pherfformiad allweddol ar gyfer y rhaglen Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd. Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran gweithio gyda chyfleustodau statudol i alluogi proses fwy effeithlon ar gyfer gwyriadau.

Mae cynnydd da wedi'i wneud hefyd o ran dylunio ac adeiladu, gyda'r dylunio'n parhau ar gyflymder da a bydd angen ei gynnal.

Mynegodd y Bwrdd ei werthfawrogiad o ymweliad diweddar â depo Ffynnon Taf. Argymhellodd y Bwrdd y dylid gwahodd uwch swyddogion Llywodraeth Cymru i ymweld â depo Ffynnon Taf a'r rhwydwaith presennol **[Gweithredu Jeremy Morgan].**

**13. Edrych ymlaen at chwe mis nesaf Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd**

Cyflwynwyd y Bwrdd i'r contractau allweddol sydd i'w gosod dros y cyfnod nesaf. Nododd y Bwrdd broffil y prosiectau seilwaith am y chwe mis nesaf.

Gadawodd Dan Tipper y cyfarfod

**14. Cofrestr risg**

Ymunodd Leyton Powell â'r cyfarfod.

Adolygodd y Bwrdd y gofrestr risg strategol gyfredol a nodi rhai mân newidiadau a oedd yn deillio o roi'r model gweithredu targed ar waith.

Trafododd y Bwrdd faterion cyflenwi yn y dyfodol a gofynnodd a oedd Llywodraeth y DU yn gwneud unrhyw waith yn y maes hwn **[Gweithredu Alexia Course].**

Trafododd y Bwrdd sicrwydd ynghylch gofynion Cyllid Ewropeaidd hefyd. Hysbyswyd y Bwrdd bod archwiliadau EFAT rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cyflwyno yn y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Nodwyd y Gofrestr Risg.

Daeth y Cadeirydd â’r cyfarfod i ben a diolchodd i bawb am eu cyfraniadau.